



info@ceredrotian.com

01974 821511

Rhifyn 15

Croeso!

Mae wedi bod yn gyfnod prysur i Geredrotian, gyda bob un o'r 3 clwb yn cynnal eu rasys yn y mis diwethaf. A braf yw cael dweud fod bob un ohonynt wedi cael eu cynnal fel y cynllun eleni. Yn y 2 gylchlythyr nesaf mi fyddwn yn cael cip olwg ar enillwyr y rasys mawr yn y 3 cyfarfod. Y mis hwn cawn olwg ar Rhyds Panache- enillydd ffeinal Coron y Castell, Tanycastell; Styx Thunder enillydd ffeinal Ystrad Fflur, Tregaron a Western Dreamer enillydd Cwpan Cors Caron, Tregaron.

Clwb Rasio Harnais Tanycastell

Yn anffodus ni fu'r tywydd yn garedig iawn i'r cyfarfod eleni. Roedd y glaw trwm wedi creu rhywfaint o amheuaeth a fydda'n bosib rasio. Roedd ardaloedd cyfagos wedi eu taro gan lifogydd ar y dydd blaenorol ond yn ffodus I Rasys Tanycastell cafwyd heulwen braf yn Aberystwyth. Ond erbyn dydd Sul nid oedd rhagolygon y tywydd mor ffafriol. Ond er waethaf ambell i gawod drom cyn rasio fe aeth y rasys ymlaen yn hwylus, er mae'n anochel fod glaw'r bore wedi cadw rhai pobl draw. Ond mi fyddai yn cymryd mwy na ambell i gawod i gadw pwyllgor Tanycastell lawr, ac fe wellodd bethau dipyn wrth i Trevor Morgans, Peter Davies a Karen Lowes (hoelion wyth y clwb), gael eu ceffylau i gylch yr enillwyr yn ystod y prynhawn. Da iawn nhw!

Clwb Trotian Tregaron

Rhyddhad yw adrodd fod rasys Tregaron nol yn eu priod le yn Nhregaron eleni! A datgarn unwaith eto mae Tregaron yw prif cyfarfod rasys y DU. Cafwyd 41 o rasys dros y 3 diwrnod a chyfle i weld ceffylau gorau'r wlad yn brwydro am brif rasys y tymor. Mi roedd e'n braf cael gweld dim llai na 9 enillydd lleol eleni, a nifer o rhai eraill yn dod yn agos iawn.

Mae Tregaron yn cael ei gydnabod fel y cyfarfod sydd yn cynnal y rasys mwyaf yng Nghymru a'r DU. Mi fyddwn yn cael golwg mwy manwl a rhai ohonynt nes ymlaen. Ond yn gyntaf, golwg ar Rasys Cyfres Y

Ddraig. Yn ogystal â ffeinal bob dydd mae rasys Cyfres y Ddraig wedi datblygu yn boblogaidd iawn ac yn cynnig rasys o'r safon uchaf i'r ceffylau ifanc. Dydd Gwener gwelwyd y Ddraig a Ddreiges lau i geffylau 2 oed. Yn Ras Y Ddreiges daeth 7 eboles ymlaen, gan gynnwys 'Rhyds Art', enillydd y Breeders Crown. Ond methodd ag ymdopi a'r Americanes, a 'Serrano Hall' (Western Ideal/Redhot Pepperhot) daeth i'r brig. Wedyn 7 o ebolion yn Y Ddraig lau, ras agored ag 'In Demand' (Major in Art/Panama Canal) yn ennill ac yn bodloni ei berchennog Sue Young yn fawr iawn. Cafwyd rasys Y Ddraig a'r Ddreiges Fach Gymreig I geffylau 3 oed dydd Sadwrn. Cafwyd 2 rhag ras i'r ebolesau a brwydr glos iawn yn y ddwy ras. Dim ond hyd ben yn rhanu Lyons Royal Flush a Ontop Wye Preach yn y rhag ras gyntaf a diwedd glo tebyg yn yr ail ragras rhwng Ladyford Indiana a Runaway Girl. A chafwyd ail-frwydr rhwng y ddwy eto yn y ffeinal, ond er ymdrech gref gan Runaway Girl, unwaith eto roedd Ladyford Indiana (The Preacher Pan / Ayr Katie K) yn rhy dda iddi ar y dydd. Daeth ebolion 3oed gorau'r wlad yng nghyd yn y Ddraig Fach Gymreig, ac efallai yn anffodus i'r ras, mi gafodd un o'r ffefrynnau, Stamp Hill (Armbro Deuce /Teatime Hall) ei dynnu rhif un ar y gât. Fe wnaeth yn fawr o'i safle a William Laidler yn medru rheoli'r ras o'r blaen. Y ras ddelfrydol i Stamp Hill ac fe gamodd dros y llinell derfyn yn fuddugol mewn amser o 2.02.6, degfed eiliad yn gyflymach na rhag ras uchaf Clasur Cymru. Llongyfarchiadau i bob un o ennillwyr y Ddraig, yn sicr dyma yw sêr y dyfodol.



Cafodd Rhyds Panache (The One Night Pan/Bounce) ei brynu yn arwerthiant Llanellwedd fel ebol blwydd am £3,600. Roedd Ray Cooper wedi ei ddeni i'r ceffyl oherwydd ei fagwraeth a'i fframwaith. Ar yr un adeg, roedd brawd Panache, Rick's Crossroads (Dream Away/Bounce) yn rhedeg yn Colonial Downs, UDA ac wedi ennill mewn amser o 1.55.2. Medrodd gwneud yr amser hwn er waethaf y ffaith ei fod wedi torri ei gam ar gychwyn y ras a 13 hyd y tu ôl ar y ¼ milltir. Nodwyd hefyd fod Bounce yn chwaer i Witchcraft (Camtastic/Satan's Alley). Ac mi roedd ebol cyntaf Witchcraft, Sleep Easy yn cynnal record o 1.51.2. Roedd pethau yn argoeli'n dda i Rhyds Panache ac wrth i'r forthwyl cael ei daro, roedd teulu'r Cooper yn hapus a cheffyl newydd.

Mae'n debyg nad oedd Rhyds Panache yn geffyl hawdd pan oedd yn ifanc. Cafodd ei ddanfôn i David Bevan i'w dorri mewn a'i hyfforddi. Fe ddisgrifiodd David y ceffyl fel "tipyn o foi", ac oedd yna adegau pan oedd well gan Panache eich cyfarch a'i ben ôl yn hytrach nai ben blaen! Ac ar sawl achlysur roedd David wedi ystyried ffonio Ray i ofyn iddo ddod i gasglu ei geffyl cyn bod rhywun yn cael dolur. Ond dyfal donc a dir y garreg ac fe ddaeth pethau'n well.

O gofio'r adegau anodd yn y diwrnodau cynnar, roedd y teulu yn hynod falch o'i berfformiadau yn y rasys i geffylau 2 oed, yn cynnwys y Breeders Crown a'r Ddraig Iau Gymreig. A gydag amser o 2.03 roedd pethau'n argoeli'n dda i'r dyfodol.

Fel ebol tair, cafodd 11 ras. Ennill 3 a chael safle mewn 4 arall. Tymor da ac mi roedd gwell i ddod.

Yn 4 oed yn 2013, fe gafodd ras gyntaf y tymor yn Rasys Gwanwyn Tregaron. Ei ras gyntaf ac ennill. Wedyn fe ddaeth allan i ennill yn Leominster. O fan hynny aeth ymlaen i Appleby, ac er cael ei ymharu gan geffyl arall fe ddaeth yn ôl i orffen yn 4ydd. Ond er waethaf y siom gyda Rhyds Panache, mi roedd y teulu ddigon hapus a'i siwrne i Appleby, wrth i'w ceffyl arall, Camden Casanova fynd ymlaen i ennill ffeinal Appleby. Dyma'r ffeinal cyntaf i'r teulu i'w ennill, ond nid y diwethaf.

Wedi gorffen yn ail mewn rhagras yn rasys Ceredigion, mi roedd sawl un yn ffansio Rhyds Panache i rasys Tanycastell. Ennillodd ei rhagras yn hawdd, 8 hyd ar y blaen mewn amser o 2.07.9. Y rhag ras gyflyma a'r ennillydd mwyaf hawdd. Gyda 'draw' i'r y ffeinal, fe gafodd Panache y safle gorau - rhif 1 ar y gat. Roedd popeth yn edrych yn dda i'r ffefryn, ac fe aeth i'r blaen ar y cychwyn a chafodd neb arall fawr o siawns. Diwrnod Rhyds Panache oedd hi, buddugoliaeth a Choron Y Castell 2013 yn eiddo i Rhyds Panache.

Wedi Tanycastell, fe aeth ymlaen i ennill rhag ras Ystrad Fflur yn Nhregaron ond di-safle yn y ffeinal. Hyd yma eleni mae wedi rhedeg 13 o rasys, ennill 6 yn ogystal a 3 safle hefyd. Mae ei hyfforddwr David Bevan bob amser wedi ei hystyried yn athletwr naturiol sydd wedi gwella gydag oedran. Y gobaith nawr yw bod pethau dal ar ei fyny ac mi fydd na fwy o lwyddiant iddo yn y dyfodol. Ni does cynllun pendant am y dyfodol ond mae'n siŵr y gwelwn yng nghylch yr ennillwyr eto'n fuan.

Fel gwir ran fwyaf ym myd ceffylau rasio, nid yw bywyd hyfforddwr yn fêl i gyd waeth. Ac mae'r hyfforddwr ifanc Michael O'Mahony wedi profi hyn. Wedi sefydlu ei hun fel hyfforddwr 18 mis yn ôl, erbyn diwedd 2012 Michael oedd pencampwr hyfforddwyr a gyrwyr Cymru a'r Gorllewin. Ond yna yn 2013, ni chafodd yr un ennilydd hyd ganol mis Awst. Roedd yna ddim yn mynd o'i blaid ambell i geffyl yn anhwylyd ac ambell i un ag anaf, a'r ceffylau yn rhedeg ymhell o dan eu gallu. Ond, fel hyfforddwr mae rhaid i chi ddal i gredu a brwydro ymlaen. A gyda brwdfrydedd ac ymroddiad roedd pethau yn argoeli'n well yn rasys Boughrood. Ac er fawr ryddhad i'r stabl, mi enillodd The Bold Jack ei ras yn Boughrood yn gyfforddus ac mewn steil.

Ymlaen i rasys Tregaron a roedd Michael yn teimlo fod y ceffylau yn rhedeg tipyn gwell. Mi fyddai The Bold Jack yn rhedeg eto, ond y tro hyn mi fyddai rhaid wynebu Rhyds Panache a Wellfield Earl. Er rhedeg yn dda, cafodd The Bold Jack i gai yn y bocs gan y 2 yma, wrth i'r bocs agor, methodd a symud ddigon cyflym i herio'r ddau, ond er hynny gorffen yn 3ydd dim ond ½ hyd y tu ôl iddynt. Cafodd ei geffyl arall, Saorlas Glory ras bendigedig, a hwylio adre i orffen yn ail i Camden Corleone yn ei rhag ras - a mynd ymlaen i orffen yn 3ydd yn Ffeinal Ystrad Fflur. Dim ond Comply or Die oedd ganddo ddydd Sadwrn, ac mi orffennodd yn 2il, gan ychwanegu i'r 3ydd wobwr cafodd y diwrnod blaenorol. Roedd pethau yn mynd tipyn gwell i Michael, a dydd Sul siawns i Western Dreamer ddangos ei ddoniau.

Ceffyl 7 oed yw Western Dreamer, wrth The Cammisoner ac yn ychwanegiad gweddol ddiweddar i'r stabl wrth iddo gyrraedd ond 5 wythnos yng nghynt. Mi roedd Michael wedi dod ar draws y ceffyl 4 mlynedd yn ôl, wrth iddo deithio i Iwerddon i'w yrru i ennill ei ras Forwynol yn Cork. Addas wedyn bod y ddau wedi aduno i gyflawni gornest orau'r ceffyl.

Roedd Western Dreamer wedi dangos potential yn ifanc, wrth ennill rhagras yn rasys Ceredigion yn 2010

a dim ond jyst cael ei guro gan Oddsonbeth yn rhagras Appleby yn 2011. Ond yn anffodus wedi hyn cafodd anaf i'w dendon, a orfodwyd o'r trac am 2 flynedd. Roedd y driniaeth a'r gorffwys yn ystod y cyfnod yma yn ymddangos i fod yn llwyddiannus. Roedd y goes wedi gwrthsefyll pwysau'r rhaghyfforddi a nawr roedd yn amser gweld a fyddai yn gwrthsefyll hyfforddiant llawn a rasio. Wrth hyfforddi adre, roedd pob dim i weld yn iawn ond mi roedd yn rhwystredig iawn yn ei rasys. Digon o allu ond yn gwneud camgymeriadau a thorri ei gam yn Allensmore a Boughrood.

Ond fe ddaeth pethau'n well yn Nhregaron, mae'n amlwg roedd Western Dreamer yn gwerthfawrogi uwch safon y trac, a gyd-lamodd yn berffaith yn ei ragras gan orffen yn ail i'r ffeifryn Porterstown Road. Yn y ffeinal, fe syrthiodd popeth i'w le. Safle da i gychwyn a chael arweiniad da gan Porterstown Road, mi roedd mewn safle da i wneud ei symudiad yr un pryd a Porterstown Road, ac wrth droi am adre roedd Western Dreamer yn teithio yn well na neb, a heb oedi dim hwyliodd heibio i Porterstown Road am fuddugoliaeth gyfforddus. Mi roedd gwen Michael wrth groesi'r llinell yn dweud y cyfan, a'r dorf yn cydnabod dawn yr hyfforddwr/gyrrwr a'r ceffyl. Mi roedd yn braf hefyd fod rhieni Michael wedi gwneud y siwrne i Dregaron ac yn medru ymuno yn yr hwyl a'r dathlu. Efallai nad yw Michael wedi cael lluo o ennillwyr yn 2013, ond yn sicr mi fydd yn flwyddyn i'w gofio. Ennill ei ffeinal gyntaf, a honno yn ffeinal yn Nhregaron. Gan obeithio ma' dyma ddechrau pennod newydd i'r hyfforddwr ifanc, yn sicr mae'n argoeli fod yna dipyn mwy o lwyddiant i ddod ger ei fron.



Nid yw Walter Stewart yn un sydd yn mynd il wastraffu amser 'da ceffyl gwael. Rydym eisoes wedi gweld a chlywed am ei bencampwr, Forafewdollarsmore. Ac erbyn hyn mae yn berchen ar seren arall. Roedd y ceffyl wedi dal llygad Walter Stewart a Rory Bridgette wrth ennill ras forwynol yn Portmanock. Yn ol y traddodiad yn Iwerddon, mae'n siwr y bu 'na fargeinio. Ond diwedd y stori yw bod y ddau wedi prynnu Styx Thunder (Barnett Hanover/The Black Widow) fel ebol 4 oed ar ddiwedd tymor 2011. Fe enillodd 7 ras iddynt yn 2012, gan gynnwys rhag ras a Ffeinal Ras Coffa Paddy a Jason Kane yn Portmanock ym Mis Medi 2012. Roedd yn amlwg fod Walter a Rory yn llygad eu lle a bod Styx Thunder wedi bod yn fuddsoddiad da iddynt. Cafodd llwyddiant y ceffyl ei gydnabod wrth iddo dderbyn Tlws yr SHRI am Geffyl Y Flwyddyn 2012, a chyflwynwyd y tlws iddynt gan neb llai na un o brif yrwyr Gogledd America, Jody Jamieson.



Er wedi ei fagu yn yr Alban, eleni oedd y tro cyntaf i'r ceffyl teithio ar draws mor y Iwerydd i rasio. Roedd y gobeithion yn uchel wrth gyrraedd Musselburgh, enillodd ei rhagras ond 5ed yn y ffeinal, a enillwyd gan William Laidler a Springhill Alibi. Ymlaen i Dregaron.

Rhwng Musselburgh a Tregaron, roedd Styx wedi cael buddugoliaeth arall nol yn Portmanock mewn amser o 1.58.9. Erbyn hyn roedd pawb yn gwybod am ddoniau'r ceffyl ac wrth igarden Tregaron cael ei

chyhoeddi ar ddechrau'r wythnos, Styx Thunder oedd y ffeilyn i ennill Ras Ystrad Fflur. Ac er safon y ras, roedd ei yrrwr Jonathan Dunne yn ffyddiog y gall Styx Thunder cyflawni'r her o ennill y rhag ras a'r ffeinal. Ond ni aeth pethau'n dda yn y rhag ras, cafodd safle gwael ar y gât, ac fe gollodd tipyn o dir, erbyn y ¼ milltir roedd Styx Thunder 20 hyd y tu ôl i'r ceffyl blaen, nid y man delfrydol i unrhyw ffeilyn. Gorfod i Jonathan Dunne a Styx ddefnyddio pob owns o'u dawn, a dim ond crafu mewn i'r ffeinal wrth orffen yn 3ydd yn y rhagras cyflyma. Nid y ffordd fwyaf hyderus i gyrraedd unrhyw ffeinal!



Ond mi roedd yn wahanol stori yn y ffeinal, y tro yma cafodd y lwc o gael ei dynnu rhif un ar y gât. Y cynllun oedd i ddefnyddio ei safle, gadael y gât yn brydlon ond cael ei hun yn saff o amgylch y tro cyntaf. Yn geffyl mawr roedd hyn yn ei hun yn dipyn o her. Ond yn steil unigryw'r gyrrwr, fe aeth y 2 o amgylch y tro ac arwain i mewn i'r syth cefn. Dechrau delfrydol ac o'r safle hyn, roedd Jonathan Dunne yn medru rheolu'r ras a gyda chwaneg o lwc a dawn buddugoliaeth o 5 hyd wrth iddo groesi'r llinell i ennill Ffeinal Ystrad Fflur.

Dyna oedd diwedd tymor 2013 i Styx Thunder, yn gorffen ei dymor fel ceffyl Gradd 8. Mae ei gysylltiadau yn gobeithio y bydd nol yn rasio yn Iwerddon a'r DU y flwyddyn nesaf a throedio mewn i gylch yr ennillwyr yn rheolaidd unwaith eto.

Newyddion Sydyn

- Llongyfarchiadau i Gwenan Thomas a Rhys Evans ar ennill y Derby Cenedlaethol gyda McCoy
- Cyfarfod Blynyddol Clwb Cardigan Bay, Gwesty'r Grannell, Llanwnnen - Nos Fawrth 17 Medi am 8 o'r gloch.

Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government